# Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Date of publication: Dydd Llun, 29 Gorffennaf 2019

1 **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac : 2019/29 - Cynllun Lleihau Carbon**

**Gofynnodd y Cynghorydd C. Evans:**

Allwch chi roi diweddariad i ni ar gynlluniau lleihau carbon eich gweinyddiaeth? Fyddwch chi'n ymrwymo, yn yr un modd â chynghorau eraill, i Gasnewydd yn dod yn garbon-niwtral erbyn 2030 ac felly o bosibl yn cyfyngu ar gynhesu byd-eang i 1.5 gradd?

**Atebodd y Cynghorydd Whitcutt:**

Mae'r Cymdeithas Llywodraeth Leol wedi datgan argyfwng hinsawdd yng nghynhadledd ddiwedd y CLlL. Cefnogodd y cynnig yr egwyddor bod rhaid i bob lefel llywodraeth gydweithio i weithredu'n llwyddiannus Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae cynnig y Gymdeithas:

• Yn galw ar Lywodraeth Er Mawrhydi i ystyried cefnogi gweithredu'n ddomestig y Nodau Datblygu Cynaliadwy trwy rolau partneriaeth a ariennir o fewn pob ardal llywodraeth leol; a

• Yn annog cynghorau i barhau i weithio ar gysylltu eu blaenoriaethau lleol ag uchelgeisiau cyffredinol y NDCau.

• Yn datgan 'Argyfwng Hinsawdd', ac yn ymrwymo i gefnogi cynghorau yn eu gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy gynnig llais cryf wedi'i uno i gynghorau wrth lobio am gefnogaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn, a rhannu arfer gorau ym mhob cyngor.

O ran leihau effaith (uniongyrchol) y Cyngor ei hun ar yr hinsawdd, mae gennym raglen barhaol o weithgareddau a phrojectau lleihau carbon. Caiff ein dull hirdymor ei gyhoeddi yn ein Cynllun Rheoli Carbon cyntaf sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.